

Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig – Adran Fynydd

Ysgrifennydd/Swyddog Datblygu – Swydd Ddisgrifiad

Mae gan Gymdeithas Ddefaid Mynydd Cymreig (Adran Fynydd) dros 300 o aelodau yn ffermio ucheldir Canolbarth a Gogledd Cymru. Mae'n gweithredu ar ran cymdeithasau defaid mynydd pump sir, siroedd Arfon, Ceredigion, Dinbych, Meirion a Threfaldwyn, sy'n cydweithio â'u gilydd er budd y brid.

Fe fydd y swydd o Ysgrifennydd/Swyddog Datblygu yn gyfrifol am waith gweinyddol y gymdeithas a'i datblygiad ar amser heriol l'r diwydiant amaethyddol gan geisio denu mwy o aelodau a hyrwyddo rhinweddau'r brid.

Fe fydd y gwaith gweinyddol yn golygu mynychu hyd at bedwar cyfarfod o'r pwyllgor gwaith y flwyddyn a'r cyfarfod blynyddol, gyda chyfrifoldeb am drefnu a galw'r cyfarfodydd, cadw cofnodion a gweithredu ar gyfarwyddyd y pwyllgor. Gall hynny olygu cyfarthrebu er engraifft â Llywodraeth Cymru, yr undebau amaethyddol, yr NSA, y gadwyn fwyd ac ati yn ogystal ac aelodau unigol. Bydd angen cyd-weithio a chymdeithasau defaid mynydd y pump sir hefyd.

Fe fydd angen cynnal materion ariannol y gymdeithas sydd ac incwm o rhyw £4,500 y flwyddyn ar hyn o bryd gan baratoi cyfrifon l'w cyflwyno l'r cyfarfod blynyddol ym mis Ionawr fel arfer. Rhaid cadw'r rhestr aelodau gan wirio taliadau blynyddol. Trefnir dydd agored yn flynyddol ar fferm aelod a bydd angen cyd-weithio hefo'r sir fydd yn cynnal y diwrnod l drefnu'r achlysur.

Mae gwefan y gymdeithas l'w chynnal. Mae cyfrif Facebook yn cael ei redeg gan grwp o aelodau ifanc. Fe fydd y gallu l ymdrin â'r cyfryngau cymdeithasol yn bwysig yn ogystal a meddu'r gallu l gyfarthrebu yn dda, boed hynny ar lafar neu yn ysgrifenedig.

Er mwyn ceisio ychwanegu at nifer yr aelodau a hyrwyddo cryfderau y ddafad mynydd ymysg ffermwyr eraill a'r gadwyn fwyd, disgwylir l'r swyddog fynychu sioeau (fel y Royal Welsh) ac arwerthiannau, ymweld â chynadleddau neu gyfarfodydd l hyrwyddo buddianau'r gymdeithas a'r brid.

Fe fydd angen gwybodaeth dda o rinweddau'r brid ac yr hyn y gall ei chyflawni gan nodi cyfleon (boed l'r ddafad neu'r wŷn tewion) l ychwanegu gwerth. Rhaid meddu ar allu gweinyddol ac ariannol trefnus.

Bwriedir talu £3,000 y flwyddyn at y swydd gyda 40 ceiniog y filltir at gostau trafeilio. Amcangyfrifir y bydd angen treulio rhyw at 20 diwrnod y flwyddyn l gyflawni'r swydd. Fe fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn hunan-gyflogedig.

Fe ddylai ymgeiswyr yrru copi o'u CV yn amlinellu eu cymwysderau ar gyfer y swydd ac esboniad o pam y byddent yn gymwys l'r gwaith i'r ysgrifennydd cyfredol yn:

CDMC Adran Fynydd, Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2WB neu drwy ebost l mossj@wlbpc.co.uk erbyn ddydd Gwener 14eg Medi 2018.